

Cyfarfod Cyngor Cymuned Nos Fawrth 5ed Hydref 2021

Presennol: Y cadeirydd Emma Chappell a'r cynghorwyr Phyllis Ellis, Ynyr Gwyn Parri, Elfed wyn Williams, Dawn Parry, Ceri Angharad Jones, Jane Pierce, Sasha Williams, Richard Ll. Jones, Gareth Griffiths, Rhian Evans-Hill a R Hefin Williams
Croesawyd y Cynghorydd Elwyn Jones

Ymddiheuriadau: Idris Thomas a Lowri Hughes

Cafwyd gair o groeso gan Y Cadeirydd a rhoddwyd gair o weddi gan Richard Ll Jones.

Datgan Buddiant - Fel yr arferir yng nghyfarfod trafodaethau rhoddion ariannol, roedd pawb yn datgan diddordeb gan fod pob un gyda rhyw gysylltiad gyda mudiad neu bentref.

Cofnodion Cyfarfod 7fed fedi 2021

Derbyniwyd y Cofnodion fel rhai cywir

R Hefin Williams (1) Gareth Wyn Griffiths (2)

Materion o'r Cofnodion

Banc - Yn dilyn gyrru am arweiniad gan Unllais, cafwyd ateb gydag arweiniad am fancio ar y we. Penderfynwyd gyrru llythyr cwyno am y newidiadau i'r cyfrif sydd yn rhedeg ers blynyddoedd. Awgrymwyd fod pob mudiadau yn gyrru cwyn ymlaen I Hywel a Siân Gwenllïan. Mae gwasanaeth Cymreig ac arian cefn gwlad yn mynd allan o'r ardal.

Arwydd Penisa'r-waun - Dal ar goll a heb ei adnewyddu.

Gohebiaeth a Materion Eraill

Allt Ddu - Derbyniwyd llythyr gan Idris Thomas yn dilyn sgwrs gyda Swyddogion Parc Padarn ynglŷn â'r arwydd a'r enw cywir 'Allt Ddu' yn hytrach na'r gwahanol enwau anghywir sydd yn cael eu rhoi am yr ardal. Bu i ni neilltuo £1000 am arwyddion i'r ardal ac i argraffu manylion teithiau cerdded o hanes yr ardal mewn llyfryn. Cytunwyd I hyn, ac i'r clerch drefnu gyda Carwyn Williams o Barc Padarn.

Awgrymwyd hefyd i lythyru a gwahodd Mei Mcyntyre Huws I gyfarfod Y Cyngor Cymuned fel rhan o'i swydd gyda Chyngor Gwynedd I drafod yr ail enwi gwahanol lefydd sydd yn digwydd yn yr ardal. Rhaid hefyd sicrhau fod yr enwau cywir yma ar amserlenni bws Cyngor Gwynedd, a bod pob adran o fewn Y Cyngor Sir yn defnyddio'r enwau cywir.

Llythyr cefnogi'r alwad rheoli marchnad dai - Wrth gwrs cytunwyd yn unfrydol i gefnogi cais i alwad ar lywodraeth Cymru I reoli'r farchnad dai. A'r argyfwng tai sydd yn effeithio cymunedau ar draws Cymru.

Cynllunio

Ceisiadau a dderbyniwyd:

C21/0948/18/DT, Tyn y Weirglodd, Penisa'r-waun - Cais ar gyfer codi estyniad un llawr.
Dim Gwrthwynebiad

C21/0918/18/TC, Carafán, carreg y Garth Isaf Allt Rhiwlas - Defnydd o siale fel uned anheddol. Gwrthwynebu oherwydd pryderon ehangu i'r dyfodol, gosod cynsail a chynyddu traffic ar hyd lôn gul.

C21/0879/18/DT 16 Bro Rhiwen, Rhiwlas - Dymchwel yr adeiladau presennol a chodi estyniadau yn eu lle. Dim Gwrthwynebiad

C21/0876/18/DT Gwyndy, Bethel. Newid garej i anecs. Dim Gwrthwynebiad

Llwybrau - Dal I ddisgwyl clywed am amcan bris i'r gwaith ar y llwybrau gan Gyngor Gwynedd

Diweddaraaf Awdit - Derbyniwyd e-bost yn nodi fod angen rhoi arwydd ac arddangos y ffurflen flynyddol ar y wefan erbyn Medi 30, er bod yr awdit heb ei gwblhau, oherwydd bod Awdit Cymru wedi rhedeg i rwystrau sydd yn debygol na fyddent yn gallu cwblhau awdit Cyngorau Cymuned mewn amser.

Adroddiad o is Bwyllgor Meysydd Chwarae

Cyflwynwyd adroddiad cryno o waith y pwyllgor ynghyd a'u hawgrymiadau, a'u rhesymeg dros hynny. Trafodwyd yr adroddiad, a diolchwyd i'r criw am eu gwaith trylwyr yn ystod yr ymgynghoriad. Penderfynwyd yn unfrydol i beidio cymryd y gwasanaeth meysydd chwarae a Chae Bwthyn drosodd gan Gyngor Gwynedd. Yn anffodus, oherwydd sawl rheswm dweud y gwir, ond yn arbennig oherwydd diffyg diddordeb a chefnogaeth i hyn gan y cymunedau o fewn y pentrefi. Bydd y gwasanaeth yn dal i gael ei gynnal ar hyn o bryd gan yr adran economi, Cyngor Gwynedd.

Fframwaith Adfywio Bro Peris

Cyflwynwyd llythyr a chynllun o gyngor Gwynedd ynglŷn â sut i fynd o amgylch hyn. Teimlwyd fod gormod o gynllunio e.e. cynllun yma, un arall gan ysgolion, ac un arall o rywle arall, a dim digon o bobl ifanc gyda diddordeb. Mae yna ymdrech yma i bobl gynhenid weithio yn galed ar gefn criw bach sydd eisoes yn brwydro i gynnal. Gan fod pob pentref gydag arferion a gwasanaethau gwahanol, gofynnwyd i bawb yrru ymateb i'r 3 cwestiwn i'r clerc mor fuan a bod modd.

Hysbysfyrddau

Derbyniwyd 3 amcan bris gan wahanol gwmnïau am hysbysfyrddau eithaf tebyg. Penderfynwyd fod y mesur yn iawn, ond ein bod angen rhoi teitl y Cyngor uwch eu pen mewn hanner crwn, ac mewn lliw. Glas oedd yn cymryd y fantais. Penderfynwyd cael pris gan y cwmni mwyaf cystadleuol Noticeboard Company.

Hefyd, nodwyd fod Brynrefail yn dymuno cael hysbysfwrdd. Mae pwyllgor allanol wedi ei greu yno. Gofynnwyd fod cadeirydd neu ysgrifennydd y grŵp yn cysylltu yn uniongyrchol gyda'r clerc. Bydd angen rhai fydd yn cloi hefyd. Mae angen cysylltu gydag Adra I gael caniatâd i osod yn Rhiwlas.

O gwmpas y Bwrdd

Penisa'r-waun - Tyfiant o gwmpas arwyddion lorïau trwm Tan y Gaer. Arwyddion ffordd yn cael eu cuddio gan ordyfiant mewn sawl man.

Toriadau Gordyfiant Cyngor Gwynedd - Gofynnwyd am gais i fynd I Gyngor Gwynedd I roi'r toriadau gordyfiant blynyddol ar rota i bob ardal, a rota sydd yn symud fel bod yr un ardal ddim yn gorffen yn olaf pob blwyddyn.

Cyfarfodydd - rhoddwyd cais i ni geisio anelu i gyfarfod wyneb yn wyneb fel rydym yn dod allan o'r pan demig. Awgrymwyd y buasai efallai yn dda edrych ar y sefyllfa yn dilyn derbyn y booster. Cymryd un mis ar y tro.

Ceisiadau Ariannol

Penderfynwyd Rhoddion ariannol fel a ganlyn:

Neuadd Bentref Rhiwlas	300.00
Pwyllgor Neuadd Penisa'r-waun	300.00
Clwb Bowlio Bethel	200.00
Clwb Snwcer Deiniolen	200.00
Seindorf Arian Deiniolen	300.00
Pêl Droed Ieuencid Bethel	300.00
Llais Ogwan	50.00
Eco'r Wyddfa	300.00
Eisteddfod Bentref Bethel	300.00
Clwb Crefft Rhiwlas	150.00
Cynllun Efe	150.00
Cynllun Natur a Garddio Ysgolion:	
Ysgol Bethel	300.00
Ysgol Gwaun Gynfi	300.00
Ysgol Penisa'r-waun	300.00